Aberystwyth and Llanbadarn Fawr

# Tree Trail

*A celebration of Coed Aber and other trees*




Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Grŵp Aberystwyth Gwyrddach GAG Greener Aberystwyth Group

Coed Aber was specially funded by the Welsh Government and Ceredigion County Council between 2013–2015 to create an avenue of over 280 trees lining the new approach road from Llanbadarn Fawr into Aberystwyth.

## Aberystwyth and Llanbadarn Fawr Tree Trail

**Distance:** approx. 5.0 km (3.1 miles) ●●●●
**Time:** allow 1½ to 2hrs
**Surface:** tarmac suitable for buggies and wheel chairs

**Start:** from railway station turn right past the bus station to Plascrug gates. On the way note: (1) Silver Maple which provides welcome shade for sitting and (2) Mountain Ash (or Rowan) marking our Fair Trade town status. Walk through the decorative wrought iron gates down Plascrug Avenue, a wonderful example of Victorian foresight, with more than 140 trees of 18 different species maintained by the County Council and providing a much-loved traffic-free avenue for walkers, runners and cyclists. Note the large Poplar and Tulip Tree (3). Just before the children's playground cross to the left-hand side to see a Turkey Oak and Poplar (4). Continue alongside Nant Plascrug, an old mill leat, where you may spot mallards or a kingfisher. At the end of the avenue pass a large Sycamore (5), bear right past the school entrance then cross the railway bridge.



Cross the Pelican crossing, go left and immediately right to take the multiuse tarmac track. On your left an emergency flood sump includes a Birch copse (6) with an information board colour-coded with corresponding tree marker posts. The walnut trees are behind you. At (7) an information board and finger post indicate an alternative unsurfaced route ○○ which can be taken in dry weather through the Alder and Willow on the riverside nature reserve. The tarmac path continues past a second flood lagoon (8) with mainly Birch trees and behind Parc y Llyn Retail Park.

On reaching the main road turn right to take the underpass, turning left up the slope to walk beside the main road with 3 large White Poplars and a Willow edging the playing fields. You will come to a wide grassy area (9) planted with a variety of trees identified on 2 information boards. Walk on past the 8 Ornamental Pears, turning round at the Coed Aber sign. Retrace your steps through the underpass, turning right to see more plantings, including Dawn Redwoods (10). Look out for orchids in flower (May–June).



Walk back to (8) then turn right along a short, wide, rough-surfaced path past the Glan Rheidol estate and a surgery. Turn left towards the centre of town. Ornamental Cherries (11) outside the County Council and Welsh Government Offices can be seen across the road (Ffordd Parc y Llyn). All plantings along this road will mature to create the new avenue into town. Continue towards the lagoon (6) noting the row of Turkish Hazel inside the fence and more Coed Aber plantings on both sides of the road (Boulevard de St Brieuc).

Before the Police Station there are more unusual species planted in a green triangle and information board (12). Bear left here taking the riverside path with mainly Hawthorn and Sycamore to arrive at a car park, and new trees (Ornamental pears) in a grassy bank (13). Walk down the slope into the car park. Note the row of Cherries and Whitebeams to your left as you continue to the main road.

Turn left past more street trees towards the pedestrian lights; cross here and turn left. At the roundabout turn right past 4 mature trees (14), (2 Oaks, 2 Horse Chestnuts), on the way back to the Railway Station.

Aberystwyth a Llanbadarn Fawr

# Llwybr Coed

*Dathlu Coed Aber a choed eraill*




Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Grŵp Aberystwyth Gwyrddach GAG Greener Aberystwyth Group

Ariannwyd Coed Aber yn arbennig gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion rhwng 2013 a 2015 i greu coedlan o dros 280 o goed ar hyd y ffordd newydd o Lanbadarn Fawr i Aberystwyth.

## Llwybr Coed Aberystwyth a Llanbadarn Fawr

**Pellter:** tua 5.0 km (3.1 milltir) ●●●●
**Amser:** 1½ i 2 awr
**Arwyneb:** tarmac sy'n addas ar gyfer coetsys babanod a chadeiriau olwyn

**Dechrau:** O'r orsaf reilffordd, trowch i'r dde heibio i'r orsaf bysiau hyd giatiau Plascrug. Ar y ffordd sylwch ar: (1) Masarnen Arian sy'n cynnig cysgod hyfryd i eistedd a (2) Cherddinen sy'n nodi ein statws Tref Masnach Deg. Cerddwch drwy'r giatiau haearn gyrru addurniadol i lawr Plascrug, sy'n enghraifft hyfryd o ragweledigaeth Fictoraidd, gyda dros 140 o goed o 18 rhywogaeth wahanol sy'n cael eu cynnal a'u cadw gan y Cyngor Sir ac sy'n darparu coedlan boblogaidd heb draffig ar gyfer cerddwyr, rhedwyr a beicwyr. Sylwch ar y Boplysen a'r Diwlipwydden mawrion (3). Yn union cyn yr ardal chwarae i blant croeswch i'r ochr chwith er mwyn gweld Derwen Twrci a Phoplysen (4). Parhewch ar hyd Nant Plascrug, hen gafn melin, lle gallwch weld hwyaid gwylltion neu las y dorlan. Ar ddiwedd y goedlan ewch heibio i Sycamorwydden fawr (5), cadwch i'r dde heibio i fynedfa'r ysgol ac yna croeswch bont y rheilffordd.



Croeswch y groesfan Pelican, ewch i'r chwith ac yna'n syth i'r dde er mwyn mynd ar y llwybr tarmac aml-ddefnydd. Ar eich chwith mae pwll i ddal dŵr llifogydd sy'n cynnwys coedlan Bedw (6) gyda bwrdd gwybodaeth sydd wedi ei godio â lliwiau sy'n cyd-fynd â'r marciau ar y coed. Mae'r coed Cyll Ffrengig y tu ôl i chi. Yn (7) mae bwrdd gwybodaeth a phostyn yn dangos llwybr amgen ar hyd llwybr sydd heb arwyneb ○○ y gellir ei gymryd yn ystod tywydd sych drwy'r coed Gwern a Helyg ar y warchodfa natur wrth ymyl yr afon. Mae'r llwybr tarmac yn parhau heibio i ail bwll i ddal dŵr llifogydd (8) gyda choed Bedw yn bennaf ac yn mynd tu ôl i Barc Siopa Parc y Llyn.

Wrth gyrraedd y briffordd trowch i'r dde i fynd ar y danffordd, ac yna trowch i'r chwith i fyny'r llethr er mwyn cerdded wrth ochr y briffordd gyda 3 o Boplys Gwynion ac un Helygen wrth ymyl y caeau chwarae. Byddwch yn dod at ardal eang o laswellt (9), lle mae amrywiaeth o goed wedi'u plannu ac fe'u henwir ar y ddau fwrdd gwybodaeth. Cerddwch ymlaen heibio i'r 8 o Goed Gellyg Addurniadol, gan droi yn ôl wrth yr arwydd Coed Aber. Ewch yn ôl ar y danffordd, ac yna trowch i'r dde i weld mwy o goed a blannwyd, gan gynnwys Cochwydd y Wawr (10). Cadwch lygaid am degeirianau pan maent yn blodeuo (Mai–Mehefin).



Cerddwch yn ôl i (8) ac yna trowch i'r dde ar hyd llwybr byr, llydan ag arwyneb garw heibio i Ystâd Glan Rheidol a meddygfa. Trowch i'r chwith tuag at ganol y dref. Gellir gweld Coed Ceirios Addurniadol (11) y tu allan i Swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru o ochr arall y ffordd (Ffordd Parc y Llyn). Bydd yr holl goed a blannwyd ar hyd y ffordd hon yn aeddfedu i greu'r goedlan newydd i mewn i'r dref. Parhewch tuag at y sŷmp (6) gan sylwi ar y rhes o Gyll Twrcaidd y tu mewn i'r ffens a mwy o Goed Aber a blannwyd ar ddwy ochr y ffordd (Boulevard de St Brieuc).

Cyn Gorsaf yr Heddlu mae mwy o rywogaethau anarferol wedi'u plannu mewn triongl gwyrdd ynghyd â bwrdd gwybodaeth (12). Cadwch i'r chwith yma er mwyn mynd ar hyd y llwybr wrth ymyl yr afon, sydd â choed Drain Gwynion a Sycamorwydd yn bennaf, er mwyn cyrraedd maes parcio, ac mae coed newydd (Coed Gellyg Addurniadol) yma ar fanc glaswelltog (13). Cerddwch i lawr y llethr i mewn i'r maes parcio. Sylwch ar y rhes o goed Ceirios a Cherdin Gwynion ar eich ochr chwith wrth i chi barhau tua'r briffordd.

Trowch i'r chwith heibio i fwy o goed ar y stryd tuag at y goleuadau i gerddwyr; croeswch yma a throwch i'r chwith. Wrth y gylchfan trowch i'r dde heibio 4 coeden aeddfed (14), (2 Dderwen, 2 Gastanwydden y Meirch), ar y ffordd yn ôl i'r Orsaf Reilffordd.




## Allwedd/Key

| Allwedd | | Key |
|---|---|---|
| Llwybr coed | ● | Tree trail |
| Llwybr amgen | ○ | Alternative route |
| Parcio | P | Parking |
| Canolfan Croeso | i | Tourist Information |
| Parc chwarae | | Play area |
| Parc sglefrio | | Skate park |
| Toiledau | | Toilets |
| Caffi | | Cafe |
| Coed o ddiddordeb | 5 | Trees of interest |
| Gorsaf / trac rheilffordd | | Railway station/track |
| Llwybr troed cyhoeddus | | Public footpath |

## A wyddoch chi?

Roedd y byd yn llawn cochwydd 10 pan droediai'r deinosoriaid y ddaear.

## Did you know?

Redwood trees 10 were abundant when dinosaurs roamed the earth.

## A wyddoch chi?

Fe gafodd y diwlipwydden 3 ei henw am fod ei blodau'n debyg i diwlipau.

## Did you know?

The Tulip tree 3 is named after its flowers that resemble tulips.

## A wyddoch chi?

Fod coed yn gallu... gwella ansawdd yr aer, rhoi cysgod a lloches, creu cynefin i fywyd gwyllt a helpu i leihau'r perygl o lifogydd.

## Did you know?

That trees... improve air quality, give shade and shelter, provide wildlife habitat and help reduce flood risk.

## A wyddoch chi?

Pan mae coed mawr yn ymestyn eu canopi mae hynny'n gwneud mannau gwyrdd yn iachach ac yn well i'r amgylchedd.

## Did you know?

Large spreading tree canopies maximise the health and environmental benefits of green spaces.

## A wyddoch chi?

Mae 'blew' yn tyfu ar gwpanau mes derw Twrci 4 yn yr hydref.

## Did you know?

The Turkey Oak 4 has 'hairy' acorn cups in autumn.

Coed Aber project was conceived by GAG, developed by Forestry Commission Wales and implemented by Ceredigion County Council.
Leaflet designed by Argraff (arwel@argraff.co.uk) for GAG (www.aber-gag.org.uk); funded by Ceredigion County Council.